# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 13.03.09

**Presennol:** Y Cynghorydd J.R. Jones (Cadeirydd ar gyfer y cais cyntaf)
Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd ar gyfer yr ail gais)
Y Cynghorwyr Dewi Llewelyn (ar gyfer y cais cyntaf) a Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W. Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol); Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu); y Rhingyll Bill Coppack (Swyddfa'r Heddlu Bangor)

**Ymgeiswyr**: Mr John Metcalf (Rheolwr KFC, Bangor) a Mrs Jane Hughes; Mr Richard Williams (Daliwr Trwydded O'Sheas, Bangor) a Mrs Laura Hart-Hill (Arolygydd Eiddo Dynodedig O'Sheas, Bangor)
.

**1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO KFC, 289, STRYD FAWR, BANGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais yr Heddlu i adolygu Trwydded Eiddo KFC, 289, Stryd Fawr, Bangor. Mae gan yr eiddo drwydded sy'n cynnwys amod bod rhaid i system TCC fod yn weithredol yn yr eiddo. Y prif reswm tros yr adolygiad oedd argaeledd ffilm TCC i'r Heddlu a/neu unrhyw awdurdod cyfrifol arall.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd yr Heddlu;

ii. Cafodd deilydd y drwydded a'i gynrychiolydd gyfle i ymateb i'r sylwadau;

iii. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded a'r cynrychiolydd

iv. Cafodd yr Ymgeisydd a deilydd y drwydded a'i gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gyflwyno sylwadau i gefnogi'r cais tynnodd y Rhingyll Bill Coppack sylw at nifer o ddigwyddiadau a oedd yn rhoddi manylion ynglyn â phroblemau 'roedd swyddogion wedi eu cael wrth geisio cael tystiolaeth TCC parthed achosion troseddol. 'Roedd rhaid rhoddi'r gorau i rai ohonynt oherwydd diffyg tystiolaeth y byddai wedi bod yn bosibl ei chael oddi ar ffilm TCC. Mae'r catalog o flerwch wedi arwain at golli tystiolaeth mewn ymchwiliad i drosedd difrifol ac mae'r unigolyn a ddioddefodd y gamdriniaeth yn aelod o staff y cwmni, sy'n dangos difaterwch llwyr at atal trosedd ac anhrefn.

Yn ogystal, daeth i sylw swyddogion yr heddlu lleol bod cryn dipyn o ysbwriel yn dod o'r eiddo ac yn cael ei daflu o amgylch ardal Stryd Fawr, Bangor.

Hysbysodd ymhellach bod yr heddlu yn awyddus i weithio'n agos gyda deilydd y drwydded eiddo a chytunwyd i ddiwygio rhai amodau a ofynnwyd yn y cais am adolygiad.

Wrth ymateb i gais yr Heddlu, cadarnhaodd rheolwr yr eiddo ei fod yn fodlon derbyn yr amodau ychwanegol fel y cytunwyd gyda'r heddlu. Cyfaddefodd bod camgymeriadau wedi eu gwneud ond 'roedd diffyg cyfathrebu yn gyfrifol am hynny. 'Roeddynt bob amser yn ceisio cynorthwyo'r heddlu drwy adael iddynt edrych ar ffilm TCC mewn perthynas â digwyddiadau eraill yn y Stryd Fawr. Sicrhaodd hefyd y byddai rhif cyswllt ar gael i'r holl staff os na fydd aelod o'r tîm rheoli yn bresennol yn yr eiddo pan fyddai'r heddlu angen gweld ffilm TCC. Nododd hefyd mai'r digwyddiad y cyfeirir ato uchod oedd y digwyddiad cyntaf ers blynyddoedd a'i fod yn gyffredinol yn ceisio cynorthwyo'r heddlu.

Gadawodd y tenantiaid, swyddogion yr Heddlu a'r Rheolwr Trwyddedu yr ystafell tra'r oedd aelodau'r Is-bwyllgor yn trafod y cais.

Wrth ddod i benderfyniad, nododd yr Is-bwyllgor bod cytundeb rhwng y partion mewn perthynas â'r amodau diwygiedig ychwanegol.

**PENDERFYNWYD ychwanegu'r amodau canlynol drwy gytundeb rhwng y partion –**
**a) Unwaith y bydd unrhyw aelod o Heddlu Gogledd Cymru, neu unrhyw awdurdod perthnasol gan gynnwys Cyngor Gwynedd, yn gwneud cais i unrhyw aelod o staff yn yr eiddo am unrhyw dâp fideo neu atgynhyrchiad digidol a recordiwyd ar yr eiddo, bydd yr atgynhyrchiad yn cael ei wneud ac yn cael ei roddi i'r unigolion sy'n gwneud y cais. Os nad yw hyn yn bosibl bydd yr atgynhyrchiad yn cael ei drosglwyddo i swyddfa'r unigolyn sy'n gwneud y cais, (Gorsaf Heddlu Bangor yn achos Heddlu Gogledd Cymru) gan weithiwr cyflogedig yr eiddo o fewn 48 awr o'r amser y gwnaed y cais yn wreiddiol.**
**b) Bod rhif cyswllt ar gael i holl aelodau'r staff os na fydd aelod o'r tîm rheoli yn bresennol pan fydd Heddlu Gogledd Cymru angen gweld y ffilm TCC.**
**c) Bod digon o gynwysyddion addas ar gael i ddal ysbwriel. Bydd y rhain i gyd â chaeadau sy'n cau yn iawn a byddent yn cael eu cadw'n lân.**
**ch) Bod strydoedd cyfagos yn cael eu monitro er mwyn sicrhau nad yw cwsmeriaid yn taflu sbwriel ar y stryd a/neu i mewn i eiddo pobl sy'n byw gerllaw nac yn achosi niwsans i drigolion.**
**d) Ni fydd cwsmeriaid yn cael bwyta nac yfed y tu allan i'r eiddo.**
**dd) Bod aelod o staff yn monitro unrhyw giwiau tu mewn a thu allan i'r eiddo er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r amcanion trwyddedu.**
**e) Bod patrol ysbwriel yn cael ei roddi ar waith bob tro bydd y busnes yn cau pan mae golau dydd yn bodoli er mwyn sicrhau nad oes ysbwriel yn yr ardal sydd wedi ei ffinio gan Ffordd y Deon, Ffordd Gwynedd a chloc y dref.**
**f) Bod hysbysiadau yn cael eu dangos yn cynghori cwsmeriaid bod taflu ysbwriel yn drosedd.**
**ff) Bod hysbysiadau yn cynghori bod TCC yn gweithredu i gael eu harddangos mewn mannau amlwg.**
**g) Bod hysbysiadau yn rhybuddio pobl i beidio ymddwyn yn afreolus i gael eu harddangos mewn mannau amlwg.**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol yr anfonir llythyr i bawb o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, gan hysbysu pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor.

**2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO TAFARN O'SHEAS, 206, STRYD FAWR, BANGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais yr Heddlu i adolygu Trwydded Eiddo Tafarn O'Sheas, 206, Stryd Fawr, Bangor ac yn gofyn am unai ddiddymu'r drwydded neu atal y drwydded tros dro oherwydd achosion o yfed dan oed, ymgyrchoedd pryniant prawf a fethwyd ac aflonyddwch tu allan i'r eiddo yn ymwneud â phobl ifanc dan oed a oedd wedi bod yn yfed alcohol ar yr eiddo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

i) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd yr Heddlu;

ii) Cafodd deilydd y drwydded a'i gynrychiolydd gyfle i ymateb i'r sylwadau;

iii) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded a'r cynrychiolydd

iv) Cafodd yr Ymgeisydd a deilydd y drwydded a'i gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gyflwyno sylwadau i gefnogi'r cais tynnodd y Rhingyll Bill Coppack sylw at nifer o ddigwyddiadau a gymerodd le yn yr eiddo megis –
a) gwerthu alcohol i bersonau dan oed
b) cwsmer yn llithro yn yr eiddo a phan gyrhaeddodd y gwasanaethau brys gwelwyd ei fod yn feddw iawn.
c) achosion o aflonyddwch tu allan i'r eiddo yn ymwneud â phobl ifanc dan oed
ch) lefel uchel o gocên ar silff yn yr ystafell pŵl.
d) nad oedd y system TCC yn gweithio'n foddhaol.

Wrth ymateb i gais yr Heddlu, datganodd daliwr y drwydded –
i) y llwyddodd yr eiddo ddau brawf pryniant allan o bedwar a chadarnhaodd pan ddarganfuwyd aelod o staff yn gwerthu alcohol i bersonau dan oed, fe'i diswyddwyd.
ii) bod yr anffawd a achoswyd i'r cwsmer drwy lithro wedi digwydd tu allan i'r eiddo ond bod ei goes wedi rhoi oddi tano pan ddaeth i fewn i'r eiddo.
iii) y gwaharddwyd cwsmeriaid o'r eiddo yn dilyn darganfod lefel uchel o gocên yno.
iv) yr atgyweiriwyd y system TCC ar ôl i'r heddlu godi'r mater.
v) y rhybuddiwyd y cyfan o'r staff i beidio gwerthu alcohol i bersonau dan oed a chytunwyd i wirfoddoli polisi "Sialens 23"
vi) y mabwysiadwyd polisi caeth ar y drysau.

Gadawodd y tenantiaid, swyddogion yr Heddlu a'r Rheolwr Trwyddedu yr ystafell tra'r oedd aelodau'r Is-bwyllgor yn trafod y cais.

Wrth ddod i benderfyniad, rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r materion canlynol –
a) Y nifer o achlysuron a gofnodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru, ac yn enwedig y rhai yn berthnasol i werthu alcohol i rai dan oed.
b) Y ffaith bod digwyddiadau yn parhau i gymryd lle yn dilyn y broses adolygiad dau ran.
c) Y lefel uchaf o gocên recordiwyd yn yr eiddo.
ch) Pa un ai diddymu'r drwydded neu ataliad tros dro fyddai'r ffordd orau i oresgyn y problemau.

**PENDERFYNWYD**
**a) Atal trwydded O'Sheas, Bangor am gyfnod o 6 wythnos i gymryd effaith pan fydd cyfnod gwneud apêl i ben, neu os bydd apêl ymlaen, pan penderfynu'r apêl**

**b) Bod yr amodau mandadol canlynol i'w hychwanegu at y drwydded –**
**i) Bydd y goruchwyliwr eiddo dynodedig yn hwyluso holl ymweliadau'r heddlu i'r eiddo.**
**ii) Bydd y goruchwyliwr eiddo dynodedig yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i leihau'r nifer o dreisgarwch neu/a unrhyw achlysur gwrth-gymdeithasol yn yr eiddo drwy –**

- **alw Heddlu Gogledd Cymru i bob achlysur treisgar o fewn i'r eiddo ac oddi allan pan fydd staff ar y drysau yn gweithio yn yr eiddo.**
- **symud unrhyw berson treisgar o'r eiddo a dim gadael iddynt ddod yn ôl ac yna ystyried camau "Pub Watch" fel yn briodol.**
- **fonitro yn effeithiol yr holl bobl sydd yn gadael yr eiddo i edrych am wydrau neu poteli (a allai gael eu defnyddio fel arfau)**
- **wrthod mynediad i unrhyw berson sydd wedi meddwi neu dan ddylanwad cyffuriau.**
- **atgoffa'r holl staff o'r amodau o amgylch gweini ar bobl wedi meddwi a'r ffaith ei fod yn drosedd a allai arwain at adolygiad o'r drwydded.**

**iii) I osod system TCC effeithiol i'r eiddo gan sicrhau bod yr holl eiddo wedi ei gynnwys ac i sicrhau bod unrhyw doriad yn y system TCC yn cael ei atgyweirio ar fyrder.**
**iv) I gydymffurfio gyda'r holl amodau "Pub Watch".**
**v) I sicrhau bod unrhyw ddigwyddiad neu barti yn amodol i hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Lleol am rybudd digwyddiad tros dro.**
**vi) I weithredu polisi "Sialens 21" llym.**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol yr anfonir llythyr i bawb o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, gan hysbysu pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.30pm